**RAE CAERFFILI 006 – Y Cynghorydd Charlotte Bishop**

Bydd nifer o brosiectau tai mawr yn cynyddu poblogaeth yr ardal hon yn sylweddol ac mae angen tri chynghorydd i sicrhau cynrychiolaeth ddigonol.

**RAE CAERFFILI 007 – Y Cynghorydd Carol Andrews**

Annwyl Syr neu Fadam,

Hoffwn gyflwyno fy arsylwadau ar yr Arolwg Etholiadol o Gaerffili: Cynigion Drafft.

Mae'r Cyflwyniad i'r adroddiad yn dweud bod Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn arolygu trefniadau etholiadol a ffiniau wardiau bob 12 mlynedd. Fodd bynnag, arolygwyd ffiniau wardiau Caerffili ddiwethaf yn 2020, bum mlynedd yn ôl yn unig. Pam, felly?

Rydym wedi cael is-etholiad yng Nghaerffili yn ddiweddar yn dilyn marwolaeth Hefin David AS ac mae llawer o breswylwyr eisoes wedi'u drysu gan y newidiadau niferus i ffiniau y mae ein hardal wedi'u dioddef. Bydd newid arall i'r ffiniau yn gwaethygu'r dryswch.

Ar bapur, mae'r cynnig drafft hwn yn ymddangos yn rhesymol. Fodd bynnag, mae papur a mapiau'n wastad, nid ydynt yn ystyried mynyddoedd, ffyrdd, llwybrau bysiau a thair cymuned gwbl wahanol, pob un â'i hagendâu a'i materion unigol. Mae ardal Bargod Fwyaf, fel y'i diffinnir gan Gyngor Tref Bargod, yn gymuned gydlynol, fel y disgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, lle mae gan bobl o'r gwahanol gymunedau berthnasoedd cadarnhaol, ymdeimlad a rennir o berthyn a chyfle cyfartal. Fodd bynnag, mae pobl yng Ngilfach yn ystyried eu bod yn byw yng Ngilfach, nid Bargod neu Aberbargoed. Yn fy marn i, nid yw'r cynnig hwn yn gwarchod llesiant cenedlaethau Gilfach yn y dyfodol. Yn hanesyddol, roedd Bargod a Gilfach yn un ward, ond ymgyrchodd cynghorwyr blaenorol, yn enwedig y diweddar Harry Andrews MBE, dros ddwy ward ar wahân ac mae pobl Gilfach wastad wedi bod yn ddiolchgar am hyn.

Rwyf hefyd yn gwrthwynebu enw'r ward etholiadol newydd, gan fod Gilfach ac Aberbargoed wedi diflannu. Fel yr wyf eisoes wedi'i ddweud, nid yw'r preswylwyr yn ystyried eu bod yn byw ym Margod.

Mawr obeithiaf y byddwch yn ailystyried y newid hwn i'r trefniadau etholiadol.

Yn gywir,

**Y Cynghorydd Carol Andrews**
Cynghorydd Sir - Gilfach | County Councillor - Gilfach
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Caerphilly County Borough Council

**RAE CAERFFILI 008 – Y Cynghorydd Carol Andrews**

Prynhawn da Syr neu Fadam,

Yn dilyn fy neges e-bost ddoe (sydd wedi'i hatodi), hoffwn gyflwyno cynnig amgen ar gyfer Wardiau Aberbargoed a Bargod a Ward Gilfach. Mae ward Parc ym Margoed wedi'i lleoli rhwng Gilfach a Bargod a gellid ei symud i Ward Gilfach er mwyn lleihau'r lefelau amrywiant oddi wrth y cyfartaledd sirol presennol yn ward etholiadol

Aberbargoed a Bargod. Mae preswylwyr ward Parc eisoes yn credu eu bod yn byw yng Ngilfach (o ganlyniad i'w cyfeiriad post) ac yn cysylltu â mi fel eu Cynghorydd lleol, felly ni fyddai hyn yn newid mawr iddynt. Byddai'r cynnig hwn hefyd yn diogelu enwau wardiau etholiadol Aberbargoed a Gilfach.

Yn gywir

**Y Cynghorydd Carol Andrews**
Cynghorydd Sir - Gilfach | County Councillor - Gilfach
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Caerphilly County Borough Council

**RAE CAERFFILI 009 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'r ardaloedd hyn yn eithaf gwahanol gyda gwahanol ofynion a demograffeg amrywiol. Nid yw'r ffaith eu bod yn gyfagos i'w gilydd yn rheswm da dros eu cyfuno. Maen nhw'n iawn fel y maent.

**RAE CAERFFILI 010 – Aelod o'r Cyhoedd**

O ran cyfuno'r ffiniau rhwng ward Ynys-ddu a ward Crosskeys, credaf NA ddylai'r ddwy ward gyfuno am y rhesymau a restrir isod.

1) Ffiniau Seneddol a Senedd gwahanol ar gyfer preswylwyr Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys. Mae'r is-etholiad diweddar yn Etholaeth Caerffili o ganlyniad i farwolaeth sydyn Dr Hefin David wedi achosi dryswch i lawer o breswylwyr, nad oeddent yn sylweddoli nad oedd ganddynt yr hawl i bleidleisio.
Ar hyn o bryd, mae Ward Ynys-ddu a Crosskeys mewn dwy etholaeth Seneddol wahanol (Ynys-ddu: Chris Evans AS ar gyfer Caerffili a Crosskeys: Ruth Jones AS ar gyfer Islwyn a Chasnewydd) ac etholiadau Llywodraeth Cymru (Ynys-ddu: Blaenau Gwent Caerffili Rhymni a Crosskeys: Casnewydd Islwyn).

Petai Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys yn cyfuno, byddai'n anodd iawn i breswylwyr ddeall pa AS/Aelod o'r Senedd i bleidleisio drosto yn yr etholiadau Seneddol a Senedd nesaf.

2) Yn yr arolwg diwethaf o ffiniau, roedd preswylwyr Ward Ynys-ddu yn CHWYRN yn erbyn cyfuno â Ward Crosskeys. Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn arolygu trefniadau etholiadol a ffiniau wardiau bob 12 mlynedd, mae'n debyg. Fodd bynnag, arolygwyd ffiniau Ward Caerffili ddiwethaf yn 2022, dair blynedd yn ôl yn unig!
Yn yr ymgynghoriad ynglŷn â chyfuno Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys, a gynhaliwyd gan y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau yn 2022, heriwyd hyn yn gryf gan breswylwyr Ward Ynys-ddu. Rhoddwyd deiseb yn cynnwys llofnodion ysgrifenedig 1034 o bobl i'r Prif Weinidog ar y pryd, sef Mark Drakeford, ac anfonwyd llythyrau

unigol gan breswylwyr, grwpiau cymunedol a Phartneriaeth Cymunedau Cwm Sirhywi Isaf. Dirymwyd y penderfyniad yn y pen draw, ac ni chyfunwyd y wardiau.
Felly, pam mae'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau yn cynnal arolwg arall 3 blynedd yn ddiweddarach?

3) Gofynion Polisi ar gyfer Arolwg Ffiniau. Er mwyn osgoi ailadrodd cynnig diwethaf y Comisiwn, er gwaethaf ei fwriadau da, awgrymwn yn barchus eich bod yn ystyried eich dogfen Arolygon Etholiadol: Polisi ac Ymarfer 2025, Ystyriaethau ar gyfer Arolwg o Drefniadau Etholiadol Prif Ardal:
'Wrth gynnal arolwg etholiadol, mae'n ofynnol i'r Comisiwn, yn ôl Adran 30 Deddf 2013, ystyried y ffactorau canlynol':
Ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys, yn arbennig, maint, siâp a hygyrchedd ward etholiadol; ac unrhyw gysylltiadau lleol (gan gynnwys cysylltiadau lleol sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg) a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i'r trefniant etholiadol yn yr ardal.
Mae ein cwm yn deulu sy'n cynnwys pentrefi Wyllie, Ynys-ddu, Cwmfelin-fach, Brynawel a Wattsville, sydd i gyd wedi'u cysylltu'n agos trwy fusnes, clybiau chwaraeon, ystad ddiwydiannol, ffermydd anghysbell, partneriaeth gymunedol, sefydliadau crefyddol, ysgolion, grwpiau ieuenctid, meddygfa a chymhorthfa heddlu, parc gwledig a thwristiaeth. Rydym yn gymunedau agos sy'n uniaethu â'n gilydd.
Mae Ward Ynys-ddu yn gymuned falch sydd wedi sefyll yn gadarn o'i herio gan awdurdod a gofynnwn i chi beidio ag ystyried unrhyw newid i Ffin y Ward.

4) Nid yw'r ddwy gymuned yn gydnaws.
Ar bapur, mae cyfuno Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys yn ymddangos yn rhesymol. Fodd bynnag, mae papur a mapiau'n wastad, nid ydynt yn ystyried mynyddoedd, ffyrdd, llwybrau bysiau a dwy gymuned gwbl wahanol, sef Cwm Sirhywi a Chwm Ebwy, y mae ganddynt ill dwy eu hagendâu a'u materion unigol. Nid yw'r ddwy gymuned yn gydnaws.
>> Wrth edrych i'r cyfeiriad arall (i'r gogledd o Ward Ynys-ddu), fe welwn Ward Pontllan-fraith. Unwaith eto, Ward brysur iawn a chwbl wahanol sydd â thri Chynghorydd, na fyddai'n croesawu cyfuno ag unrhyw ran o Ward Ynys-ddu, yn fy marn i.

5) Nid oes cysylltiadau hanesyddol rhwng Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys. Mae llwyth gwaith enfawr yn Ward Ynys-ddu gan fod sawl mater pwysig a fydd yn cymryd llawer iawn o amser i bwy bynnag a etholir yn ddau gynrychiolydd y Ward. Chwarel Tŷ Llwyd, sy'n enwog yn genedlaethol am fod yn safle lle y gadawodd cwmnïau lleol a rhyngwladol sbwriel diwydiannol halogedig (gan gynnwys PCBs) yn y 1970au – yn dal i aros am gael ei glanhau! Yn ogystal, mae Ffatri Ailgylchu ddadleuol a dieisiau yng nghanol y Ward a Gwaith Glo Brig yn yr arfaeth sy'n cael ei herio'n gryf gan breswylwyr. Ni fydd y materion hyn yn cael eu datrys yn fuan ac maen nhw'n ychwanegol at y materion arferol sy'n wynebu pob Cynghorydd yn ei Ward.

>> Mae'r Cynghorydd Janine Reed a'r Cynghorydd Jan Jones yn ddau berson lleol sydd bellach yn cynrychioli Ward Ynys-ddu. Petai'r cynnig i gyfuno'n cael ei adfer, byddai ymgeiswyr yn y dyfodol, sy'n dymuno cynrychioli eu cymuned, yn gorfod gwasanaethu ardal etholiadol ychwanegol nad ydynt yn gyfarwydd â hi ac nad oes ganddynt gysylltiadau hanesyddol â hi. Mae lleoliaeth yn golygu ymddiried mewn cynrychiolwyr etholedig i wybod beth yw'r ffordd orau o fodloni anghenion lleol ac yna eu dal i gyfrif trwy'r blwch pleidleisio.

> Yn gywir

[redacted]

**RAE CAERFFILI 011 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr neu Fadam,

Hoffwn gyflwyno fy sylwadau ar Gynigion Drafft yr Arolwg Etholiadol o Gaerffili.

Mae'r Comisiwn Ffiniau yn arolygu trefniadau etholiadol a ffiniau wardiau bob deuddeng mlynedd, felly pam dim ond pum mlynedd sydd wedi mynd heibio ers yr arolwg diwethaf o Gaerffili? Bum mlynedd ers y newid diwethaf i ward Bargod pan gafodd ei chyfuno ag Aberbargoed a chollwyd un cynghorydd. Nawr, rydych chi eisiau cyfuno ward Aberbargoed a Bargod â Gilfach, gydag Aberbargoed a Gilfach yn diflannu o'r enw newydd yn llwyr. Rydw i'n byw yng Ngilfach, nid Bargod, ac yn ystyried bod fy anghenion yn wahanol i rywun sy'n byw ym Margod neu Aberbargoed.

Mae preswylwyr eisoes wedi'u drysu gan y newidiadau niferus i ffiniau rydym eisoes wedi'u hwynebu, ar lefel San Steffan a'r Senedd, a bydd y newid newydd yma'n gwneud pobl yn amharod i bleidleisio ar adeg pan fo arnom angen mwy o ddiddordeb yn ein cymunedau, nid llai.

Cynigiaf eich bod yn newid ffin Bargod i gryfhau ward Gilfach a'i gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn gywir,

[redacted]

Un o breswylwyr Gilfach.

**RAE CAERFFILI 012 – Aelod o'r Cyhoedd**

Fe ddylai'r ward hon gael ei galw'n Ben-Yr-Heol, nid Penyrheol, os ydych chi'n newid enwau i adlewyrchu eu sillafiad/ynganiad Cymraeg cywir.

**RAE CAERFFILI 013 – Aelod o'r Cyhoedd**

A fydd hyn yn golygu cyfuno'r ddau gyngor cymuned, hefyd?

Byddai'n dda pe gallai'r newidiadau hyn arbed arian i drethdalwyr yn y ward(iau) hefyd, oherwydd yn lle cyflogi dau glerc, fe allai un oruchwylio cyngor unigol.

**RAE CAERFFILI 014 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'r newidiadau hyn i enwau'n ymddangos braidd yn ddiangen – os nad oes gwir gost yn gysylltiedig yna efallai ei bod yn iawn, ond ar adeg pan fo arian yn dynn, a yw cysylltnod neu ddim 'ac' yn wirioneddol bwysig?

**RAE CAERFFILI 015 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rydyn ni'n byw yn ne Cymru – ardal ddi-Gymraeg amlwg. Does dim angen o gwbl i newid yr enwau i'r Gymraeg. Mae'n ddiangen ac yn ynysu mwyafrif y cymunedau Saesneg eu hiaith. Mae'r iaith Gymraeg yn cael ei gorfodi arnom ac nid yw hynny'n iawn. Rwy'n 68 oed ac wedi byw yn yr ardal hon ar hyd fy oes heb siarad Cymraeg. Fe ddylai dysgu Cymraeg fod yn ddewis. Newidiwch y ffiniau ond gadewch yr enwau heb eu newid.

**RAE CAERFFILI 016 – Aelod o'r Cyhoedd**

Ydych chi'n cytuno â wardiau etholiadol arfaethedig y Comisiwn? Ydw

A allwch roi rhagor o wybodaeth neu ddarparu cynigion eraill? Na

**RAE CAERFFILI 017 – Y Cynghorydd Kevin Etheridge**

Annwyl Syr

Yr Arolwg o Fwrdeistref Sirol Caerffili – cynnig i gyfuno Ward Ynys-ddu a Crosskeys

> A minnau wedi cael fy magu ym Mhentref Wyllie yn Ward Ynys-ddu a byw yno am 22 mlynedd, credaf y byddai cynnig y Comisiwn Ffiniau i gyfuno â Ward Crosskeys yn hollol wirion,

> 1 Mae'r Ward yn cynnwys pentrefi amrywiol Wyllie, Ynys-ddu, Cwnfelin-fach, Brynawel a Wattsville, sydd i gyd yng Nghwm Sirhywi

> 2 Bu'n un gymuned ers degawdau,

> 3 Bydd hyn yn dieithrio'r pentrefi bach ac yn lleihau'r pwyslais ar gymuned a gweithio mewn partneriaeth, gan golli hunaniaeth

> 4 Ni fydd yn cyflawni unrhyw beth gan na fydd llai o aelodau etholedig

> Gobeithiaf y bydd y deisebau a gychwynnwyd yn gwneud i'r Comisiwn Ffiniau wrando, fel o'r blaen, a defnyddio synnwyr cyffredin, a byddwn yn annog y Comisiwn i wrthwynebu unrhyw newidiadau i ffiniau wardiau

> Y Cynghorydd Kevin Etheridge OBE
> Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Caerffili

**RAE CAERFFILI 018 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr neu Fadam,

Hoffwn wrthwynebu'r cynigion ynglŷn â chyfuno ward Gilfach â Bargod ac Aberbargoed.

Rydw i wedi byw yng Ngilfach ar hyd fy oes ac [redacted] wedi brwydro dros wahanu Gilfach oddi wrth Fargod. Rydw i'n falch o fyw yng Ngilfach, felly peidiwch â newid hyn. Mae Gilfach yn bentref ynddo'i hun ac ar wahân i Fargod ac Aberbargoed.

Cofion

[redacted]

**RAE CAERFFILI 019 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr neu Fadam,

Dymunaf wrthwynebu'r cynigion ynglŷn â symud ward etholiadol Gilfach i Fargod ac Aberbargoed.

Rydw i wedi byw yng Ngilfach ar hyd fy oes ac nid wyf eisiau i'r cynnig hyn gael ei weithredu. A allwch chi symud ffiniau Gilfach i wneud yr ardal yn fwy er mwyn rhoi mwy o breswylwyr i'r cynghorydd presennol eu cynrychioli?

Diolch yn fawr

[redacted]

**RAE CAERFFILI 020 – Aelod o'r Cyhoedd**

Ydych chi'n cytuno â wardiau etholiadol arfaethedig y Comisiwn? Na

A allwch roi rhagor o wybodaeth neu ddarparu cynigion eraill? Na

**RAE CAERFFILI 021 – Aelod o'r Cyhoedd**

Ydych chi'n cytuno â wardiau etholiadol arfaethedig y Comisiwn? Ydw

A allwch roi rhagor o wybodaeth neu ddarparu cynigion eraill? Na

**RAE CAERFFILI 022 – Y Cynghorydd Kevin Etheridge**

Annwyl Gomisiwn Ffiniau,

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

O ystyried y cynnydd ym mhoblogaeth ward y Coed-duon, hoffwn gynnig cynyddu nifer yr aelodau etholedig yn y ward o 3 i 4.

Mae datblygiad tai newydd wedi cael ei adeiladu yng Ngogledd y Coed-duon yn y lleoliad a adwaenir fel Cwmgelli.

Hefyd, a allwn ni ddiwygio'r dosbarthau pôl a adwaenir fel Dwyrain Cefn Fforest i Orllewin y Coed-duon?

Yn gywir,

Y Cynghorydd Kevin Etheridge

**RAE CAERFFILI 023 – Aelod o'r Cyhoedd**

Ydych chi'n cytuno â wardiau etholiadol arfaethedig y Comisiwn? Na

A allwch roi rhagor o wybodaeth neu ddarparu cynigion eraill? Na

**RAE CAERFFILI 024 – Aelod o'r Cyhoedd**

Ydych chi'n cytuno â wardiau etholiadol arfaethedig y Comisiwn? Ydw

A allwch roi rhagor o wybodaeth neu ddarparu cynigion eraill? Na

**RAE CAERFFILI 025 – Y Cynghorydd Janine Reed a'r Cynghorydd Jan Jones**

Helô Gomisiwn Ffiniau,

Rhestrir isod y rhesymau pam y credwn NA ddylai wardiau Ynys-ddu a Crosskeys gyfuno.

**1) Ffiniau Seneddol a Senedd gwahanol ar gyfer preswylwyr Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys**

Mae'r is-etholiad diweddar yn Etholaeth Caerffili o ganlyniad i farwolaeth drist a sydyn Dr Hefin David wedi achosi dryswch i lawer o breswylwyr, nad oeddent yn sylweddoli nad oedd ganddynt yr hawl i bleidleisio.

Ar hyn o bryd, mae Ward Ynys-ddu a Crosskeys mewn dwy etholaeth Seneddol wahanol (Ynys-ddu: Chris Evans AS ar gyfer Caerffili a Crosskeys: Ruth Jones AS ar gyfer Islwyn a Chasnewydd) ac etholiadau Llywodraeth Cymru (Ynys-ddu: Blaenau Gwent Caerffili Rhymni a Crosskeys: Casnewydd Islwyn).

Petai Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys yn cyfuno, byddai'n anodd iawn i breswylwyr ddeall pa AS/Aelod o'r Senedd i bleidleisio drosto yn yr etholiadau Seneddol a Senedd nesaf.

**2) Yn yr arolwg diwethaf o ffiniau, roedd preswylwyr Ward Ynys-ddu yn CHWYRN yn erbyn cyfuno â Ward Crosskeys**

Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn arolygu trefniadau etholiadol a ffiniau wardiau bob 12 mlynedd, mae'n debyg. Fodd bynnag, arolygwyd ffiniau Ward Caerffili ddiwethaf yn 2022, dair blynedd yn ôl yn unig!

Yn yr ymgynghoriad ynglŷn â chyfuno Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys, a gynhaliwyd gan y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau yn 2022, heriwyd hyn yn gryf gan breswylwyr Ward Ynys-ddu. Rhoddwyd deiseb yn cynnwys llofnodion ysgrifenedig 1034 o bobl i'r Prif Weinidog ar y pryd, sef Mark Drakeford, ac anfonwyd llythyrau unigol gan breswylwyr, grwpiau cymunedol a Phartneriaeth Cymunedau Cwm Sirhywi Isaf. Dirymwyd y penderfyniad yn y pen draw, ac ni chyfunwyd y wardiau.

Felly, pam mae'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau yn cynnal arolwg arall 3 blynedd yn ddiweddarach?

**3) Gofynion Polisi ar gyfer Arolwg Ffiniau**

Er mwyn osgoi ailadrodd cynnig diwethaf y Comisiwn, er gwaethaf ei fwriadau da, awgrymwn yn barchus eich bod yn ystyried eich dogfen Arolygon Etholiadol: Polisi ac Ymarfer 2025, Ystyriaethau ar gyfer Arolwg o Drefniadau Etholiadol Prif Ardal:

'Wrth gynnal arolwg etholiadol, mae'n ofynnol i'r Comiswn, yn ôl Adran 30 Deddf 2013, ystyried y ffactorau canlynol':

Ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys, yn arbennig, maint, siâp a hygyrchedd ward etholiadol; ac

unrhyw gysylltiadau lleol (gan gynnwys cysylltiadau lleol sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg) a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i'r trefniant etholiadol yn yr ardal.

Mae ein cwm yn deulu sy'n cynnwys pentrefi Wyllie, Ynys-ddu, Cwmfelin-fach, Brynawel a Wattsville, sydd i gyd wedi'u cysylltu'n agos trwy fusnes, clybiau chwaraeon, ystad ddiwydiannol, ffermydd anghysbell, partneriaeth gymunedol, sefydliadau crefyddol, ysgolion, grwpiau ieuenctid, meddygfa a chymhorthfa heddlu, parc gwledig a thwristiaeth. Rydym yn gymunedau agos sy'n uniaethu â'n gilydd. Mae Ward Ynys-ddu yn gymuned falch sydd wedi sefyll yn gadarn o'i herio gan awdurdod a gofynnwn i chi beidio ag ystyried unrhyw newid i Ffin y Ward.

**4) Nid yw'r ddwy gymuned yn gydnaws**

Ar bapur, mae cyfuno Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys yn ymddangos yn rhesymol. Fodd bynnag, mae papur a mapiau'n wastad, nid ydynt yn ystyried mynyddoedd, ffyrdd, llwybrau bysiau a dwy gymuned gwbl wahanol, sef Cwm Sirhywi a Chwm Ebwy, y mae ganddynt ill dwy eu hagendâu a'u materion unigol. Nid yw'r ddwy gymuned yn gydnaws.

Wrth edrych i'r cyfeiriad arall (i'r gogledd o Ward Ynys-ddu), fe welwn Ward Pontllan-fraith. Unwaith eto, Ward brysur iawn a chwbl wahanol sydd â thri Chynghorydd, na fyddai'n croesawu cyfuno ag unrhyw ran o Ward Ynys-ddu, yn fy marn i.

**5) Nid oes cysylltiadau hanesyddol rhwng Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys**

Mae llwyth gwaith enfawr yn Ward Ynys-ddu gan fod sawl mater pwysig a fydd yn cymryd llawer iawn o amser i bwy bynnag a etholir yn ddau gynrychiolydd y Ward. Chwarel Tŷ Llwyd, sy'n enwog yn genedlaethol am fod yn safle lle y gadawodd cwmnïau lleol a rhyngwladol sbwriel diwydiannol halogedig (gan gynnwys PCBs) yn y 1970au – yn dal i aros am gael ei glanhau! Yn ogystal, mae Ffatri Ailgylchu ddadleuol a dieisiau yng nghanol y Ward a Gwaith Glo Brig yn yr arfaeth sy'n cael ei herio'n gryf gan breswylwyr. Ni fydd y materion hyn yn cael eu datrys yn fuan ac maen nhw'n ychwanegol at y materion arferol sy'n wynebu pob Cynghorydd yn ei Ward.

Mae'r Cynghorydd Janine Reed a'r Cynghorydd Jan Jones yn ddau berson lleol sydd bellach yn cynrychioli Ward Ynys-ddu. Petai'r cynnig i gyfuno'n cael ei adfer, byddai ymgeiswyr yn y dyfodol, sy'n dymuno cynrychioli eu cymuned, yn gorfod gwasanaethu ardal etholiadol ychwanegol nad ydynt yn gyfarwydd â hi ac nad oes ganddynt gysylltiadau hanesyddol â hi. Mae lleoliaeth yn golygu ymddiried mewn cynrychiolwyr etholedig i wybod beth yw'r ffordd orau o fodloni anghenion lleol ac yna eu dal i gyfrif trwy'r blwch pleidleisio.

Diolch,

Y Cynghorwyr Reed a Jones

**<u>RAE CAERFFILI 026 – Aelod o'r Cyhoedd</u>**

Pam newid rhywbeth sydd wedi gweithio'n dda? Nawr rydych chi eisiau ei newid, rwy'n dweud gadewch hi fel y mae, ward Ynys-ddu.

**<u>RAE CAERFFILI 027 – Aelod o'r Cyhoedd</u>**

Ymunwch Crosskeys a Phont-y-waun â Rhisga, nid y cynnig presennol.

**<u>RAE CAERFFILI 028 – Aelod o'r Cyhoedd</u>**

Pan ddarllenais amdano gyntaf, roeddwn yn credu ei fod yn hollol wirion oherwydd bod y Comisiwn Ffiniau, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi torri unrhyw gysylltiadau posibl rhwng Ward Crosskeys a Phont-y-waun a Ward Wyllie, Ynys-ddu, Cwmfelin-fach a Wattsville.
Yn etholiad nesaf y Senedd, ni fydd pobl Ward Crosskeys a Phont-y-waun yn yr un etholaeth â phobl yn Ward Wyllie, Ynys-ddu, Cwmfelin-fach a Wattsville.
Yn yr Etholiad Cyffredinol nesaf, ni fydd pobl Ward Crosskeys a Phont-y-waun yn yr un etholaeth â phobl yn Ward Wyllie, Ynys-ddu, Cwmfelin-fach a Wattsville.
Felly, mae cyfuno'r ddwy ward ar gyfer etholiadau awdurdod lleol yn ymddangos yn gwbl groes i synnwyr cyffredin.
Yn ogystal, mae'n rhaid i ni ystyried, ar ôl yr etholiadau lleol nesaf, os bydd y cynlluniau'n mynd rhagddynt, y gallai Ward Crosskeys/Ynys-ddu gael 3 chynghorydd sydd i gyd yn byw yn un o'r pentrefi a grybwyllwyd. Er bod y gwaith sy'n cael ei wneud gan y ddau gynghorydd ar gyfer Ward Wyllie, Ynys-ddu, Cwmfelin-fach a Wattsville yn eithriadol, a'm bod wedi dod i edmygu'r ddwy fenyw weithgar hyn yn ystod y cyfnod y bûm yn ymwneud â phrosiectau penodol gyda nhw, credaf y dylem ni yn Ward Crosskeys a Phont-y-waun gael ein cynrychioli gan breswyliwr lleol, rhywun sydd â gwybodaeth leol ac sy'n wynebu'r un problemau â phobl eraill yn y ward.

**RAE CAERFFILI 029 – Cyngor Tref Bargod**

Annwyl Foneddigion,

Atodir cynrychiolaeth gan Gyngor Tref Bargod sy'n ymateb i'r Arolwg o Drefniadau Etholiadol Bwrdeistref Sirol Caerffili: Adroddiad Cynigion Drafft.

Mae'r aelodau'n teimlo'n gryf y bydd colli enwau dwy gymuned yn cael effaith niweidiol ar yr ardal y mae'r Cyngor Tref yn gweithredu ynddi, a byddai'n gofyn i gynnig amgen gael ei ystyried.

Diolch am eich ystyriaeth.

Kind Regards/Cofion Cynnes,

[redacted]

28 Tachwedd 2025

I bwy bynnag a fynno wybod:
Arolwg o Drefniadau Etholiadol Bwrdeistref Sirol Caerffili: Adroddiad Cynigion Drafft.

O ran y cynnig i gyfuno dwy ward etholiadol Aberbargoed a Bargod â Gilfach; mae Cyngor Tref Bargod yn gofyn i ystyriaeth gael ei rhoi i ward gymunedol Parc, a oedd yn cynnwys 694 o etholwyr yn arolwg 2023. Mae'r ward gymunedol hon wedi'i chynnwys yn ward etholiadol Aberbargoed a Bargod ar hyn o bryd o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Mae preswylwyr ward Parc yn ystyried eu bod yn byw yng Ngilfach, yn unol â'u cyfeiriadau post, er enghraifft: Heol Fargoed, Gilfach, Bargod CF818PP; Park View, Gilfach, Bargod CF818QP. Mae'r ymdeimlad hanesyddol, cyffredinol o hunaniaeth yn perthyn i gymuned Gilfach, nid Bargod, yn enwedig gan fod Ystad Parc (sy'n ffurfio ward gymunedol Parc), fel y'i hadwaenir ar lafar, yn Ystad Gilfach Fargod mewn gwirionedd. At hynny, mae preswylwyr Aberbargoed eisoes yn anfodlon ar gyfuno ardaloedd ward etholiadol Aberbargoed a Bargod, gan ddadlau bod eu hunaniaeth gymunedol wedi cael ei lleihau. Bydd hyn yn cael ei waethygu ymhellach petai cymuned Gilfach yn cael ei chyfuno, gan ddileu enwau cymunedol Aberbargoed a Gilfach o'r ardaloedd ward etholiadol.

Byddai'r Aelodau'n argymell yn gryf fod etholwyr ward gymunedol Parc yn cael eu dileu o ward etholiadol Aberbargoed a Bargod a'u cyfuno â ward etholiadol bresennol Gilfach. Byddai hyn yn dod â nifer yr etholwyr fesul cynghorydd yn agosach at y cyfartaledd sirol yn ward Aberbargoed a Bargod a ward Gilfach.

Byddai'r Aelodau hefyd yn argymell yn gryf nad yw hunaniaeth Gilfach fel cymuned ar wahân yn cael ei dileu trwy ei chyfuno â ward etholiadol Aberbargoed a Bargod; byddai'r Aelodau'n awgrymu y bydd yn amgenach i breswylwyr lleol petai Bwrdeistref

Sirol Caerffili yn cadw dwy ward etholiadol ar wahân Aberbargoed a Bargod; a Gilfach.

Mae Cyngor Tref Bargod yn edrych ymlaen at gael cadarnhad terfynol o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Yn gywir,

[redacted]

Clerc y Dref/Swyddog Ariannol Cyfrifol
ar gyfer Cyngor Tref Bargod.

**RAE CAERFFILI 030 – Aelod o'r Cyhoedd**

Pan ddarllenais amdano gyntaf, roeddwn yn credu ei fod yn hollol wirion oherwydd bod y Comisiwn Ffiniau, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi torri unrhyw gysylltiadau posibl rhwng Ward Crosskeys a Phont-y-waun a Ward Wyllie, Ynys-ddu, Cwmfelin-fach a Wattsville. Yn etholiad nesaf y Senedd, ni fydd pobl Ward Crosskeys a Phont-y-waun yn yr un etholaeth â phobl yn Ward Wyllie, Ynys-ddu, Cwmfelin-fach a Wattsville. Yn yr Etholiad Cyffredinol nesaf, ni fydd pobl Ward Crosskeys a Phont-y-waun yn yr un etholaeth â phobl yn Ward Wyllie, Ynys-ddu, Cwmfelin-fach a Wattsville. Felly, mae cyfuno'r ddwy ward ar gyfer etholiadau awdurdod lleol yn ymddangos yn gwbl groes i synnwyr cyffredin.

Yn ogystal, mae'n rhaid i ni ystyried, ar ôl yr etholiadau lleol nesaf, os bydd y cynlluniau'n mynd rhagddynt, y gallai Ward Crosskeys/Ynys-ddu gael 3 chynghorydd sydd i gyd yn byw yn un o'r pentrefi a grybwyllwyd. Er bod y gwaith sy'n cael ei wneud gan y ddau gynghorydd ar gyfer Ward Wyllie, Ynys-ddu, Cwmfelin-fach a Wattsville yn eithriadol, a'm bod wedi dod i edmygu'r ddwy fenyw weithgar hyn yn ystod y cyfnod y bûm yn ymwneud â phrosiectau penodol gyda nhw, credaf y dylem ni yn Ward Crosskeys a Phont-y-waun gael ein cynrychioli gan breswyliwr lleol, rhywun sydd â gwybodaeth leol ac sy'n wynebu'r un problemau â phobl eraill yn y ward.

**RAE CAERFFILI 031- Aelod o'r Cyhoedd**

Nid wyf yn deall pam mae wardiau Crosskeys ac Ynys-ddu wedi cael eu cyfuno. Mae angen i'r ddwy gael eu cynrychiolaeth eu hunain, felly nid oes angen newid.

**RAE CAERFFILI 032 – Aelod o'r Cyhoedd**

Ydych chi'n cytuno â wardiau etholiadol arfaethedig y Comisiwn? Ydw

A allwch roi rhagor o wybodaeth neu ddarparu cynigion eraill? Na

**RAE CAERFFILI 033 – Member of the Public**

Ydych chi'n cytuno â wardiau etholiadol arfaethedig y Comisiwn? Ydw

A allwch roi rhagor o wybodaeth neu ddarparu cynigion eraill? Na

**RAE CAERFFILI 034 – Aelod o'r Cyhoedd**

Faint o arian fydd yn cael ei wastraffu trwy gyflwyno'r newidiadau hyn? Ni fydd yn cyflawni unrhyw beth, felly gadewch nhw fel y maent.

**RAE CAERFFILI 035 – Aelod o'r Cyhoedd**

Ydych chi'n cytuno â wardiau etholiadol arfaethedig y Comisiwn? Ydw

A allwch roi rhagor o wybodaeth neu ddarparu cynigion eraill? Na

**RAE CAERFFILI 036 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr / Fadam, Ysgrifennaf atoch ynglŷn â'r posibilrwydd o gyfuno wardiau dwyrain a gorllewin Rhisga. Yn bersonol, nid wyf yn gwrthwynebu cyfuno'r ddwy ward, ond nid wyf yn fodlon ar yr enw, sef ward Rhisga. Mae un o'ch mapiau'n dangos is-wardiau Pont-y-meistr Isaf ac Uchaf, Pont-y-meistr Tŷ Sign, Caeau Tŷ Isaf ac Ochrwyth a hefyd ward Trenewydd. Yn fanwl gywir, mae'r holl wardiau hyn ym Mhont-y-meistr, a dyna pam rwyf yn ysgrifennu atoch. Os bydd y wardiau'n cyfuno, hoffwn weld yr enw Pont-y-meistr yn cael ei gynnwys ynddi, oherwydd ei threftadaeth a'i hanes cyfoethog. Yn anffodus, mae Pont-y-meistr wedi colli ei hunaniaeth i Risga, felly gobeithir y bydd hyn yn cael ei ystyried.

[redacted]

**RAE CAERFFILI 037 – Aelod o'r Cyhoedd**

**Dyma restr o'r rhesymau pam y credwn NA ddylai'r ddwy ward gyfuno – defnyddiwch unrhyw un o'r pwyntiau hyn wrth ysgrifennu at y Comisiwn Ffiniau:**

## 1) Ffiniau Seneddol a Senedd gwahanol ar gyfer preswylwyr Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys

Mae'r is-etholiad diweddar yn Etholaeth Caerffili o ganlyniad i farwolaeth drist a sydyn Dr Hefin David wedi achosi dryswch i lawer o breswylwyr, nad oeddent yn sylweddoli nad oedd ganddynt yr hawl i bleidleisio.

Ar hyn o bryd, mae Ward Ynys-ddu a Crosskeys mewn dwy etholaeth Seneddol wahanol (Ynys-ddu: Chris Evans AS ar gyfer Caerffili a Crosskeys: Ruth Jones AS ar gyfer Islwyn a Chasnewydd) ac etholiadau Llywodraeth Cymru (Ynys-ddu: Blaenau Gwent Caerffili Rhymni a Crosskeys: Casnewydd Islwyn).

Petai Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys yn cyfuno, byddai'n anodd iawn i breswylwyr ddeall pa AS/Aelod o'r Senedd i bleidleisio drosto yn yr etholiadau Seneddol a Senedd nesaf.

**2) Yn yr arolwg diwethaf o ffiniau, roedd preswylwyr Ward Ynys-ddu yn CHWYRN yn erbyn cyfuno â Ward Crosskeys**

Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn arolygu trefniadau etholiadol a ffiniau wardiau bob 12 mlynedd, mae'n debyg. Fodd bynnag, arolygwyd ffiniau Ward Caerffili ddiwethaf yn 2022, dair blynedd yn ôl yn unig!

Yn yr ymgynghoriad ynglŷn â chyfuno Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys, a gynhaliwyd gan y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau yn 2022, heriwyd hyn yn gryf gan breswylwyr Ward Ynys-ddu. Rhoddwyd deiseb yn cynnwys llofnodion ysgrifenedig 1034 o bobl i'r Prif Weinidog ar y pryd, sef Mark Drakeford, ac anfonwyd llythyrau unigol gan breswylwyr, grwpiau cymunedol a Phartneriaeth Cymunedau Cwm Sirhywi Isaf. Dirymwyd y penderfyniad yn y pen draw, ac ni chyfunwyd y wardiau.

Felly, pam mae'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau yn cynnal arolwg arall 3 blynedd yn ddiweddarach?

**3) Gofynion Polisi ar gyfer Arolwg Ffiniau**

Er mwyn osgoi ailadrodd cynnig diwethaf y Comisiwn, er gwaethaf ei fwriadau da, awgrymwn yn barchus eich bod yn ystyried eich dogfen Arolygon Etholiadol: Polisi ac Ymarfer 2025, Ystyriaethau ar gyfer Arolwg o Drefniadau Etholiadol Prif Ardal:

'Wrth gynnal arolwg etholiadol, mae'n ofynnol i'r Comiswn, yn ôl Adran 30 Deddf 2013, ystyried y ffactorau canlynol':

Ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys, yn arbennig, maint, siâp a hygyrchedd ward etholiadol; ac

unrhyw gysylltiadau lleol (gan gynnwys cysylltiadau lleol sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg) a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i'r trefniant etholiadol yn yr ardal.

Mae ein cwm yn deulu sy'n cynnwys pentrefi Wyllie, Ynys-ddu, Cwmfelin-fach, Brynawel a Wattsville, sydd i gyd wedi'u cysylltu'n agos trwy fusnes, clybiau chwaraeon, ystad ddiwydiannol, ffermydd anghysbell, partneriaeth gymunedol, sefydliadau crefyddol, ysgolion, grwpiau ieuenctid, meddygfa a chymhorthfa heddlu, parc gwledig a thwristiaeth. Rydym yn gymunedau agos sy'n uniaethu â'n gilydd. Mae Ward Ynys-ddu yn gymuned falch sydd wedi sefyll yn gadarn o'i herio gan awdurdod a gofynnwn i chi beidio ag ystyried unrhyw newid i Ffin y Ward.

**4) Nid yw'r ddwy gymuned yn gydnaws**

Ar bapur, mae cyfuno Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys yn ymddangos yn rhesymol. Fodd bynnag, mae papur a mapiau'n wastad, nid ydynt yn ystyried mynyddoedd, ffyrdd, llwybrau bysiau a dwy gymuned gwbl wahanol, sef Cwm Sirhywi a Chwm Ebwy, y mae ganddynt ill dwy eu hagendâu a'u materion unigol. Nid yw'r ddwy gymuned yn gydnaws.

Wrth edrych i'r cyfeiriad arall (i'r gogledd o Ward Ynys-ddu), fe welwn Ward Pontllan-fraith. Unwaith eto, Ward brysur iawn a chwbl wahanol sydd â thri Chynghorydd, na fyddai'n croesawu cyfuno ag unrhyw ran o Ward Ynys-ddu, yn fy marn i.

**5) Nid oes cysylltiadau hanesyddol rhwng Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys**

Mae llwyth gwaith enfawr yn Ward Ynys-ddu gan fod sawl mater pwysig a fydd yn cymryd llawer iawn o amser i bwy bynnag a etholir yn ddau gynrychiolydd y Ward. Chwarel Tŷ Llwyd, sy'n enwog yn genedlaethol am fod yn safle lle y gadawodd cwmnïau lleol a rhyngwladol sbwriel diwydiannol halogedig (gan gynnwys PCBs) yn y 1970au – yn dal i aros am gael ei glanhau! Yn ogystal, mae Ffatri Ailgylchu ddadleuol a dieisiau yng nghanol y Ward a Gwaith Glo Brig yn yr arfaeth sy'n cael ei herio'n gryf gan breswylwyr. Ni fydd y materion hyn yn cael eu datrys yn fuan ac maen nhw'n ychwanegol at y materion arferol sy'n wynebu pob Cynghorydd yn ei Ward.

Mae'r Cynghorydd Janine Reed a'r Cynghorydd Jan Jones yn ddau berson lleol sydd bellach yn cynrychioli Ward Ynys-ddu. Petai'r cynnig i gyfuno'n cael ei adfer, byddai ymgeiswyr yn y dyfodol, sy'n dymuno cynrychioli eu cymuned, yn gorfod gwasanaethu ardal etholiadol ychwanegol nad ydynt yn gyfarwydd â hi ac nad oes ganddynt gysylltiadau hanesyddol â hi. Mae lleoliaeth yn golygu ymddiried mewn cynrychiolwyr etholedig i wybod beth yw'r ffordd orau o fodloni anghenion lleol ac yna eu dal i gyfrif trwy'r blwch pleidleisio.

**RAE CAERFFILI 038 – Gweithgor Trawsbleidiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Helô

Atodir yr ymateb i gynigion drafft Caerffili gan ein gweithgor trawsbleidiol.

Cysylltwch â mi ar bob cyfrif os bydd gennych unrhyw ymholiadau.

Dave

**David Beecham**
Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol | Electoral Services Manager
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Caerphilly County Borough Council

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

## Arolwg Prif Ardal – Cynigion Drafft

## Sylwadau y cytunwyd arnynt gan y Gweithgor Trawsbleidiol 5/11/25

| Adran(nau) | Safbwynt y Gweithgor |
|---|---|
| **Dwyrain Rhisga / Gorllewin Rhisga**<br><br>**Aberbargoed a Bargod / Gilfach** | Mae'n argymell bod y trefniadau presennol yn parhau. Nid yw'r Grŵp o'r farn ei bod yn ddymunol ffurfio wardiau mawr aml-aelod mewn rhai achosion, ac mae'n credu bod hyn yn gallu cynyddu llwyth gwaith cynghorwyr, cyflwyno heriau daearyddol a lleihau atebolrwydd unigol.<br><br>Mewn arolwg blaenorol, gwrthwynebodd y gweithgor gyfuno Aberbargoed a Bargod ar y sail eu bod yn gymunedau gwahanol iawn sydd â hunaniaethau unigol. Mae'r grŵp yn credu bod y ddadl hon yn fwy perthnasol y tro hwn a'i bod yr un mor gymwys i Ddwyrain/Gorllewin Rhisga.<br><br>Mewn arolygon blaenorol, mae'r Comisiwn wedi dadlau bod wardiau ag un aelod yn amgenach a dim ond mewn achosion eithriadol a lle y ceir tystiolaeth o gefnogaeth leol sylweddol y byddai wardiau â 4 aelod yn cael eu ffurfio. Mae'n ymddangos bod y cynigion hyn yn groes i'r egwyddor honno. |
| **Cwm Aber** | Mae'n argymell bod y lefel gynrychiolaeth bresennol yn parhau.<br><br>Nid yw datblygiad tai Unedig Cymru o 152 o gartrefi ar hen safle pwll glo Windsor (mae gwaith adeiladu wedi dechrau) wedi cael ei ystyried yn y rhagolwg 5 mlynedd o etholwyr posibl. Er ei bod yn anodd amcangyfrif nifer yr etholwyr ychwanegol, amcangyfrifir bod lefel y gynrychiolaeth yn agosach at -17% na -20%. Byddai hyn yn debyg i ardaloedd eraill yn y fwrdeistref sirol lle na chynigir newidiadau. |
| **Crosskeys ac Ynys-ddu** | Mae'r gweithgor yn cydnabod ei bod yn ymddangos bod Ynys-ddu wedi'i gorgynrychioli, a bod Crosskeys wedi'i thangynrychioli, ond nid yw'n cytuno ar y ffordd orau o sicrhau cydraddoldeb etholiadol. |

**RAE CAERFFILI 039 – Y Cynghorydd Bob Owen**

Rwyf yn cysylltu â chi yn dilyn fy nghynrychiolaeth gychwynnol ynglŷn â chynigion drafft y Comisiwn ar gyfer uno Dwyrain a Gorllewin Rhisga. Roeddwn yn llwyr

ddisgwyl i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) wneud cynrychiolaeth yn eu herbyn, a gofynnwyd i mi roi fy marn am hyn gan arweinydd fy ngrŵp annibynnol, sy'n aelod o weithgor a sefydlwyd i drafod yr adroddiad drafft a gwneud sylwadau arno. Yn ei hanfod, ni welaf unrhyw sylwedd o gwbl yn sylwadau'r cyngor (yr wyf wedi copïo fy safbwyntiau arnynt isod), felly nid yw fy safbwynt wedi newid, sef bod y wardiau'n cael eu cyfuno yn unol â hynny ar lefel gymunedol. Rwyf wedi ymgynghori'n helaeth ar y mater hwn gyda phreswylwyr ledled y ddwy ward ac nid wyf wedi cael unrhyw adborth negyddol. Felly, gallaf ddweud yn hyderus y bydd mwyafrif helaeth y preswylwyr yn croesawu Rhisga wedi'i haduno.

…………………………………………………………………………..

Mae CBSC yn argymell bod y trefniadau presennol yn parhau. Nid yw'r Grŵp o'r farn ei bod yn ddymunol ffurfio wardiau mawr aml-aelod mewn rhai achosion, ac mae'n credu bod hyn yn gallu cynyddu llwyth gwaith cynghorwyr, cyflwyno heriau daearyddol a lleihau atebolrwydd unigol.

Fy Sylwadau: mae'r Comisiwn wedi argymell bod Rhisga yn cael ei chyfuno ar lefel gymunedol o 2027 ymlaen. Cytunodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru â hyn yn llwyr. Mae hyn yn berthnasol oherwydd ystyriwyd Rhisga fel un gymuned, sef 'cymuned Rhisga', fel y mae wastad wedi bod yn ei hanfod, gan fod y rhaniad dwyrain / gorllewin yn anweladwy. Gwrthwynebaf safbwynt y gweithgor 'nad yw wardiau aml-aelod yn ddymunol (mewn rhai achosion) a'u bod yn gallu cynyddu llwyth gwaith cynghorwyr' gan nad yw'n cynnig unrhyw beth i'w gefnogi. At hynny, pam dweud 'nad yw'n ddymunol mewn rhai achosion' yn unig? Pa achosion? Mae'r safbwynt hwn yn gwbl ddigyfiawnhad. O ran daearyddiaeth, mae ffin gyffredinol Rhisga (wedi'i chyfuno) wedi'i diffinio'n glir iawn ac mae'r holl ardaloedd yn hygyrch iawn, felly gellir ystyried y cyfeiriad at 'heriau daearyddol' fel datganiad ffwrdd-â-hi yn unig gan nad yw wedi'i ategu gan ddadl resymedig na chyfeiriadau. O ran llai o atebolrwydd unigol, ar ba sail y gwneir yr honiad hwn? Byddwn yn gwrthwynebu hyn; p'un a yw aelodau mewn wardiau â dau, tri, neu hyd yn oed pedwar aelod, nid oes ffordd o wybod beth yw llwyth gwaith pob aelod unigol, yn enwedig os oes cynrychiolaeth drawsbleidiol yn y ward.

Mewn arolwg blaenorol, gwrthwynebodd y gweithgor gyfuno Aberbargoed a Bargod ar y sail eu bod yn gymunedau gwahanol iawn sydd â hunaniaethau unigol. Mae'r grŵp yn credu bod y ddadl hon yn fwy perthnasol y tro hwn a'i bod yr un mor gymwys i Ddwyrain/Gorllewin Rhisga.

Fy Sylwadau: gan gyfeirio at y datganiad 'cymunedau gwahanol sydd â hunaniaethau unigol' – o ran y rhaniad rhwng dwyrain / gorllewin Rhisga, mae hyn wedi cael ei ddadlau'n flaenorol gan aelodau Dwyrain Rhisga, ond nid mewn ffordd resymegol. Os ystyriwn fod y ward yn cael ei rhannu gan y llinell reilffordd (uwch ei

phen ac oddi tani), ni ddilynir hyn yn ymarferol oherwydd bod rhan o orllewin Rhisga i'r gogledd o'r llinell reilffordd (uwch ei phen). At hynny, o ran cymunedau gwahanol, efallai bod hyn yn berthnasol i Aberbargoed a Bargod, ond nid i Risga. Mae Rhisga yn cael ei hystyried (ac wastad wedi cael ei hystyried) fel un gymuned gan ei phreswylwyr, felly mae sylw'r grŵp ynglŷn â Rhisga yn cael ei wneud heb gefnogaeth na rhesymeg. Mae argymhelliad y Comisiwn ar gyfer Rhisga wedi'i seilio ar egwyddorion cadarn sy'n cydnabod y ffaith mai cymuned unigol ydyw ac, yn yr un modd â'r penderfyniad a wnaed ar lefel gymunedol (i gyfuno dau gyngor cymuned i ffurfio un), bydd yn arbed adnoddau amhrisiadwy ymhellach wrth i Risga symud o 3+2 i 4 aelod ac i'r gymhareb aelodau i breswylwyr gyd-fynd yn fras â thargedau'r Comisiwn ar gyfer y fwrdeistref.

Mewn arolygon blaenorol, mae'r Comisiwn wedi dadlau bod wardiau ag un aelod yn amgenach a dim ond mewn achosion eithriadol a lle y ceir tystiolaeth o gefnogaeth leol sylweddol y byddai wardiau â 4 aelod yn cael eu ffurfio. Mae'n ymddangos bod y cynigion hyn yn groes i'r egwyddor honno.

Fy Sylwadau: cyn i CBSC gael ei ffurfio, roedd Rhisga yn un gymuned, ac ni allaf orbwysleisio bod hynny'n wir o hyd. Wedi'i rhannu gan ffin ogleddol/deheuol nad yw'n cael ei dilyn hyd yn oed, nid wyf yn gwybod beth oedd y sail resymegol i benderfyniad a wnaed flynyddoedd lawer yn ôl i rannu'r gymuned. Efallai roedd rheswm gwleidyddol drosto? Beth bynnag fo'r rheswm, mae preswylwyr Rhisga wastad wedi bod yn un. Bydd yr argymhelliad hwn yn gwneud hynny'n swyddogol ac fe'i croesewir gan bawb heblaw am ambell un.

……………………………………………………………………………..

Cofion

**Y Cynghorydd Bob Owen**
Cynghorydd Sir - Gorllewin Rhisga | County Councillor - Risca West
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Caerphilly County Borough Council

**RAE CAERFFILI 040 – Aelod o'r Cyhoedd**

Fe ddylai Rhisga fod yn un ward, nid dwy.

**RAE CAERFFILI 041 – Aelod o'r Cyhoedd**

**Rwyf yn gwrthwynebu cyfuno'r ddwy ward hyn yn gryf. Mae'n ymddangos eich bod chi'n edrych ar rifau yn unig ac nid daearyddiaeth na chymunedau. Nid yw**

**Crosskeys yn gysylltiedig â ward Ynys-ddu o gwbl, ac ni fu'n gysylltiedig â hi erioed. Petaech chi'n gofyn i unrhyw un o Crosskeys, byddent yn uniaethu mwy â Rhisga. Rwy'n byw yn ward Ynys-ddu ac mae gennyf swyddfa a busnes yn Rhisga. Ni fydd cyfuno'r ddwy ward yn arwain at ganlyniad dedwydd.**

**Cyflwynaf fy rhesymau pam na ddylid cyfuno'r wardiau. Mae pob un pwynt yn berthnasol.**

**1) Ffiniau Seneddol a Senedd gwahanol ar gyfer preswylwyr Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys**

Mae'r is-etholiad diweddar yn Etholaeth Caerffili o ganlyniad i farwolaeth drist a sydyn Dr Hefin David wedi achosi dryswch i lawer o breswylwyr, nad oeddent yn sylweddoli nad oedd ganddynt yr hawl i bleidleisio.

Ar hyn o bryd, mae Ward Ynys-ddu a Crosskeys mewn dwy etholaeth Seneddol wahanol (Ynys-ddu: Chris Evans AS ar gyfer Caerffili a Crosskeys: Ruth Jones AS ar gyfer Islwyn a Chasnewydd) ac etholiadau Llywodraeth Cymru (Ynys-ddu: Blaenau Gwent Caerffili Rhymni a Crosskeys: Casnewydd Islwyn).

Petai Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys yn cyfuno, byddai'n anodd iawn i breswylwyr ddeall pa AS/Aelod o'r Senedd i bleidleisio drosto yn yr etholiadau Seneddol a Senedd nesaf.

**2) Yn yr arolwg diwethaf o ffiniau, roedd preswylwyr Ward Ynys-ddu yn CHWYRN yn erbyn cyfuno â Ward Crosskeys**

Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn arolygu trefniadau etholiadol a ffiniau wardiau bob 12 mlynedd, mae'n debyg. Fodd bynnag, arolygwyd ffiniau Ward Caerffili ddiwethaf yn 2022, dair blynedd yn ôl yn unig!

Yn yr ymgynghoriad ynglŷn â chyfuno Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys, a gynhaliwyd gan y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau yn 2022, heriwyd hyn yn gryf gan breswylwyr Ward Ynys-ddu. Rhoddwyd deiseb yn cynnwys llofnodion ysgrifenedig 1034 o bobl i'r Prif Weinidog ar y pryd, sef Mark Drakeford, ac anfonwyd llythyrau unigol gan breswylwyr, grwpiau cymunedol a Phartneriaeth Cymunedau Cwm Sirhywi Isaf. Dirymwyd y penderfyniad yn y pen draw, ac ni chyfunwyd y wardiau.

Felly, pam mae'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau yn cynnal arolwg arall 3 blynedd yn ddiweddarach?

**3) Gofynion Polisi ar gyfer Arolwg Ffiniau**

Er mwyn osgoi ailadrodd cynnig diwethaf y Comisiwn, er gwaethaf ei fwriadau da, awgrymwn yn barchus eich bod yn ystyried eich dogfen Arolygon Etholiadol: Polisi ac Ymarfer 2025, Ystyriaethau ar gyfer Arolwg o Drefniadau Etholiadol Prif Ardal:

'Wrth gynnal arolwg etholiadol, mae'n ofynnol i'r Comiswn, yn ôl Adran 30 Deddf 2013, ystyried y ffactorau canlynol':

Ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys, yn arbennig, maint, siâp a hygyrchedd ward etholiadol; ac

unrhyw gysylltiadau lleol (gan gynnwys cysylltiadau lleol sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg) a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i'r trefniant etholiadol yn yr ardal.

Mae ein cwm yn deulu sy'n cynnwys pentrefi Wyllie, Ynys-ddu, Cwmfelin-fach, Brynawel a Wattsville, sydd i gyd wedi'u cysylltu'n agos trwy fusnes, clybiau chwaraeon, ystad ddiwydiannol, ffermydd anghysbell, partneriaeth gymunedol, sefydliadau crefyddol, ysgolion, grwpiau ieuenctid, meddygfa a chymhorthfa heddlu, parc gwledig a thwristiaeth. Rydym yn gymunedau agos sy'n uniaethu â'n gilydd. Mae Ward Ynys-ddu yn gymuned falch sydd wedi sefyll yn gadarn o'i herio gan awdurdod a gofynnwn i chi beidio ag ystyried unrhyw newid i Ffin y Ward.

**4) Nid yw'r ddwy gymuned yn gydnaws**

Ar bapur, mae cyfuno Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys yn ymddangos yn rhesymol. Fodd bynnag, mae papur a mapiau'n wastad, nid ydynt yn ystyried mynyddoedd, ffyrdd, llwybrau bysiau a dwy gymuned gwbl wahanol, sef Cwm Sirhywi a Chwm Ebwy, y mae ganddynt ill dwy eu hagendâu a'u materion unigol. Nid yw'r ddwy gymuned yn gydnaws.

Wrth edrych i'r cyfeiriad arall (i'r gogledd o Ward Ynys-ddu), fe welwn Ward Pontllan-fraith. Unwaith eto, Ward brysur iawn a chwbl wahanol sydd â thri Chynghorydd, na fyddai'n croesawu cyfuno ag unrhyw ran o Ward Ynys-ddu, yn fy marn i.

**5) Nid oes cysylltiadau hanesyddol rhwng Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys**

Mae llwyth gwaith enfawr yn Ward Ynys-ddu gan fod sawl mater pwysig a fydd yn cymryd llawer iawn o amser i bwy bynnag a etholir yn ddau gynrychiolydd y Ward. Chwarel Tŷ Llwyd, sy'n enwog yn genedlaethol am fod yn safle lle y gadawodd cwmnïau lleol a rhyngwladol sbwriel diwydiannol halogedig (gan gynnwys PCBs) yn y 1970au – yn dal i aros am gael ei glanhau! Yn ogystal, mae Ffatri Ailgylchu ddadleuol a dieisiau yng nghanol y Ward a Gwaith Glo Brig yn yr arfaeth sy'n cael ei herio'n gryf gan breswylwyr. Ni fydd y materion hyn yn cael eu datrys yn fuan ac maen nhw'n ychwanegol at y materion arferol sy'n wynebu pob Cynghorydd yn ei Ward.

Mae'r Cynghorydd Janine Reed a'r Cynghorydd Jan Jones yn ddau berson lleol sydd bellach yn cynrychioli Ward Ynys-ddu. Petai'r cynnig i gyfuno'n cael ei adfer, byddai ymgeiswyr yn y dyfodol, sy'n dymuno cynrychioli eu cymuned, yn gorfod gwasanaethu ardal etholiadol ychwanegol nad ydynt yn gyfarwydd â hi ac nad oes ganddynt gysylltiadau hanesyddol â hi. Mae lleoliaeth yn golygu ymddiried mewn cynrychiolwyr etholedig i wybod beth yw'r ffordd orau o fodloni anghenion lleol ac yna eu dal i gyfrif trwy'r blwch pleidleisio.

Cofion

[redacted]

**RAE CAERFFILI 042 – Aelod o'r Cyhoedd**

Noswaith dda

Ysgrifennaf atoch i gyflwyno cynrychiolaeth o blaid y cynnig drafft i gyfuno wardiau Dwyrain Rhisga a Gorllewin Rhisga – gan gynnwys cyfuno eu cynghorau cymuned unigol – yn un ward Rhisga unedig â phedwar cynghorydd sir.

Credaf y byddai cyfuno'r wardiau hyn yn fuddiol i breswylwyr am y rhesymau canlynol:

1. **Gwell atebolrwydd a llywodraethu**
   Er bod Cyngor Cymuned Dwyrain Rhisga yn gweithredu'n dryloyw a chyda goruchwyliaeth briodol, mae gennyf bryderon ynglŷn â threfniadau llywodraethu **Cyngor Cymuned Gorllewin Rhisga**.
   Yn fy mhrofiad i, nid yw penderfyniadau gwario a chymorth yng Ngorllewin Rhisga bob amser wedi bod yn destun diwydrwydd dyladwy cyson, ac mae'n ymddangos bod safbwyntiau neu berthnasoedd personol wedi dylanwadu ar ganlyniadau ambell waith. Byddai un cyngor cymuned yn sefydlu fframwaith llywodraethu unedig, gan sicrhau bod arian cyhoeddus a phenderfyniadau cymunedol yn cael eu trin yn ddiduedd a chyda'r un lefel o graffu ledled Rhisga i gyd.

2. **Adolygu rolau Clerc i sicrhau penderfyniadau cyson a arweinir gan gynghorwyr**
   Yn rhan o'r ad-drefnu, byddwn yn annog y Comisiwn (a'r cyngor newydd ei ffurfio wedi hynny) yn gryf i **adolygu cymwysterau, hyfforddiant, ac addasrwydd y Clercod** sy'n gwasanaethu'r cynghorau cymuned.
   Mae'n hanfodol:
   - Bod clercod yn gweithredu mewn rhinwedd gynghorol a gweinyddol yn unig,
   - Bod yr holl benderfyniadau'n cael eu gwneud gan gynghorwyr etholedig, a
   - Bod gweithdrefnau'n cael eu cymhwyso'n gyson, yn dryloyw, a heb ddylanwad amhriodol gan unrhyw swyddog unigol.
   - Byddai sicrhau bod rôl y Clerc ar draws y cyngor unedig yn broffesiynol ac yn cael ei rheoleiddio'n dda a'i safoni yn gwella tegwch ac atebolrwydd yn sylweddol.

3. **Hunaniaeth gymunedol gryfach a chynrychiolaeth gydlynol**
   Cymuned unigol â diddordebau a rennir yw Rhisga, yn ymarferol. Byddai ward a chyngor cymuned wedi'u cyfuno yn adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol hon ac yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau lleol yn cael eu gwneud yn gyfannol yn hytrach na'u rhannu rhwng dau gorff ar wahân.

4. **Effeithlonrwydd a buddion ariannol**
   Byddai lleihau nifer y cynghorwyr sir o bump i bedwar yn arwain at arbedion ac yn lleihau dyblygu gwaith.
   Yn yr un modd, byddai un cyngor cymuned yn lle dau yn symleiddio prosesau, lleihau gorbenion gweinyddol, a chreu llinellau atebolrwydd cliriach.

5. **Cynrychiolaeth decach a mwy cyson**
   Mae strwythur ward unigol yn cefnogi nod y Comisiwn o gyflawni cydraddoldeb etholiadol a darparu cynrychiolaeth gytbwys ar draws yr ardal gyfan.

6. **Cyfathrebu a darparu gwasanaethau'n fwy clir**
   Byddai cyngor cymuned unedig yn rhoi un pwynt cyswllt clir i breswylwyr ar gyfer materion lleol, gan leihau dryswch a gwella ymatebolrwydd a thryloywder llywodraethu lleol.

Am y rhesymau hyn, gofynnaf yn barchus i'r Comisiwn fwrw ymlaen â'r cynnig i gyfuno wardiau Dwyrain Rhisga a Gorllewin Rhisga ac uno'r cynghorau cymuned. Credaf y byddai'r newidiadau hyn – ochr yn ochr ag adolygiad o rolau Clerc – yn cryfhau trefniadau llywodraethu, yn gwella atebolrwydd, ac yn gwasanaethu pobl Rhisga yn well.

Diolch am ystyried fy nghynrychiolaeth.

Yn gywir,

[redacted]

**<u>RAE CAERFFILI 043 – Y Cynghorydd Janine Reed a'r Cynghorydd Jan Jones</u>**

Annwyl Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau

<u>Gwrthwynebiad i Gyfuno Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys -V- Cynnig i gynnwys pentref Gelli-groes yn Ward Ynys-ddu.</u>

Fel atodiad arfaethedig i'n neges e-bost flaenorol at y Comisiwn Ffiniau, gweler sefyllfa a gododd yn ddiweddar sydd, yn ein barn ni, yn cefnogi ein hawgrym i gynnwys pentref Gelli-groes i fyny hyd at yr A472 yn Ward Ynys-ddu, gan felly fynd rhywfaint o'r ffordd tuag at gywiro 'tangynrychiolaeth' Ward Ynys-ddu.

<u>Y ffordd fynediad i Wyllie</u>
Yr unig fynedfa i Wyllie yw ffordd gyswllt rhwng Gelli-groes a Wyllie a adwaenir yn lleol fel 'Y Ffordd Breifat' – yr unig ffordd fynediad ar gyfer preswylwyr Wyllie. Mae awdurdodaeth Ward Ynys-ddu yn dod i ben wrth y tŷ olaf yn Wyllie. Mae hyn wedi achosi dryswch yn y gorffennol pan fydd swyddogion y Cyngor yn cysylltu â Chynghorwyr Pontllan-fraith, er mai Cynghorwyr Ynys-ddu yw'r rhai perthnasol.
<u>Gollyngiad Nwy Diweddar – Cau Ffordd</u>
Digwyddodd sefyllfa a allai fod yn beryglus yn ddiweddar ar Heolddu Road, Gelli-groes NP12 2HS. Mae Heolddu Road ym mhentref Gelli-groes (Ward Pontllan-fraith). Bu gollyngiad nwy difrifol iawn. Caeodd y Bwrdd Nwy y ffordd yn syth, gan atal mynediad i Wyllie (Ward Ynys-ddu). Roedd preswylwyr Gelli-groes (Ward Pontllan-fraith) yn gallu cyrraedd prif ffordd y B4251, ond bu'n rhaid i breswylwyr Wyllie (Ward Ynys-ddu) ddefnyddio lôn wledig gul iawn nad yw'n addas i draffig dwyffordd. Gweithiodd y Bwrdd Nwy am 7 diwrnod i drwsio'r gollyngiad ac roedd teithio ar hyd y lôn gul, a oedd bellach yn brysur, wedi codi ofn ar lawer o yrwyr o Wyllie. Penderfynodd rhai beidio â mynd allan, yn syml. Nid oedd bws i Wyllie am y 7 diwrnod yna, a achosodd lawer o ofid. Bu'n rhaid i rai preswylwyr ddibynnu ar gymdogion i ddod â bwyd iddynt.
Digwyddodd hyn i gyd o ddydd Iau 27 Tachwedd tan 3 Rhagfyr.

Rydym yn esbonio hyn er mwyn rhoi syniad i chi o sut mae'r ddwy gymuned leol hyn yn gysylltiedig. Mae unrhyw faterion yng Ngelli-groes (Ward Pontllan-fraith) yn cael effaith fawr ar Wyllie (Ward Ynys-ddu). Mae'n gwneud synnwyr i'r ddau bentref gael eu cynnwys yn yr un Ward

Ynys-ddu. Yn aml, nid yw swyddogion CBSC yn sylweddoli demograffeg y ddwy Ward a cheir oedi cyn hysbysu Cynghorwyr Wyllie.

Er mwyn dangos y sefyllfa, gweler isod neges e-bost a anfonwyd at swyddogion y Cyngor ar adeg y digwyddiad uchod.

*Darn o neges e-bost a anfonwyd at swyddogion CBSC ar 2 Rhagfyr 2025.*
*Prynhawn da*
*Diolch am ymateb i'r Cynghorydd Reed a minnau ynglŷn â phroblem nwy Heolddu Road.*
*Mae Gelli-groes yn eithriadol. Byth ers i mi fod yn Gynghorydd, bu'n rhaid i mi gysylltu ynglŷn â'r heol yma, oherwydd dyma'r unig ffordd y gall preswylwyr sy'n byw yn Wyllie ddod allan. Mae Ward Ynys-ddu yn dod i ben wrth rif 50 Glanhowy Road – ac eto mae unrhyw broblemau ar y ffordd fynediad i Wyllie wastad wedi cael eu hadrodd gan Gynghorwyr Ynys-ddu. Yn yr un modd, mae draenio/ problemau pan fydd llifogydd ar Heolddu yn effeithio ar y B4251 yn cael eu hadrodd gan bwy bynnag yw Cynghorydd Ynys-ddu, oherwydd bod rhaid i breswylwyr Wyllie allu mynd allan o'r pentref.*
*Rwyf bob amser yn ofalus i beidio â thresmasu ar unman arall yn Ward Pontllan-fraith, dim ond yr ardal sy'n effeithio'n uniongyrchol ar allu preswylwyr Wyllie i fynd allan o'r pentref.*
*Fel arfer, mae popeth yn cael ei ddatrys. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, sef digwyddiad peryglus iawn a oedd yn datblygu'n gyflym a allai fod wedi arwain at farwolaeth, bu'n rhaid i bethau symud yn gyflym ac nid yw pob swyddog yn ymwybodol bod Cynghorwyr Ynys-ddu yn wynebu adlach pan na fydd preswylwyr Wyllie yn cael eu hysbysu mor gyflym ag yr hoffent.*
*Gofynnaf i chi hysbysu swyddogion am y cysylltiad rhwng y ddwy ward hyn ac i ni i gyd gydweithio.*
*Cofion cynnes*

---

Mae'r Comisiwn Ffiniau wedi datgan bod Ward Ynys-ddu wedi'i thangynrychioli. Mae'r Cynghorydd Janine Reed a'r Cynghorydd Jan Jones wedi awgrymu'n flaenorol y dylai Gelli-groes, i fyny hyd at yr A482, gael ei gynnwys yn Ward Ynys-ddu, gan felly gynyddu'r niferoedd ychydig.

Credwn fod yr uchod yn cefnogi ein cais i beidio â chyfuno Ynys-ddu a Crosskeys, ond cyfuno rhan o Gelli-groes i fyny hyd at yr A472 â Ward Ynys-ddu.

Cofion cynnes
Y Cynghorydd Jan Jones a'r Cynghorydd Janine Reed

Cynghorydd Ward ar gyfer Ynys-ddu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Caerphilly County Borough Council

**RAE CAERFFILI 044 – Y Cynghorydd Kevin Etheridge**

Gwrthwynebiad Ffurfiol

Ward Ynys-ddu

A minnau'n Gynghorydd lleol ar gyfer y Coed-duon, roeddwn yn byw ym mhentref Wyllie (ward Ynys-ddu ers 22 blynedd). Mae preswylwyr Wyllie yn ymweld â thafarn yr Halfway House ac yn mynd i Gapel y Methodistiaid yng Ngelli-groes. Mae hyn yn creu cysylltiad cryf rhwng y pentrefi.

I gyrraedd pentref Wyllie, mae'n rhaid i'r holl draffig yrru trwy bentref Gelli-groes, a byddai'n hollol wirion i adael y pentref yn Ward Pontllan-fraith.

Mae'r lôn yn arwain yn syth i Wyllie hefyd – gan gynnwys y ffordd.

Ward y Coed-duon

O ystyried canran y tai ychwanegol yn fy ward i, sef Ward y Coed-duon, credaf fod y boblogaeth uwch yn golygu y dylid ystyried cynyddu nifer y Cynghorwyr Sir i 4, os gwelwch yn dda.

Y Cynghorydd Kevin Etheridge OBE

Cynghorydd y Coed-duon

**RAE CAERFFILI 045 – Aelod o'r Cyhoedd**

Fe ddylai Penmaen gael ei hailenwi'n Oakdale ac fe ddylai Croespenmaen gael ei chynnwys ynddi. Mae Oakdale, Croespenmaen a Phenmaen i gyd yn gysylltiedig.

**RAE CAERFFILI 046 – Aelod o'r Cyhoedd**

Bydd cyfuno'r etholaethau'n arbed arian, ac yn creu ardal leol fwy unedig.

Mae gan y ddwy etholaeth bresennol ddau gyngor cymuned, y mae ganddynt ill dau eu gorbenion eu hunain. Gellid haneru'r gost gyfan.

**RAE CAERFFILI 047 – Aelod o'r Cyhoedd**

Ydych chi'n cytuno â wardiau etholiadol arfaethedig y Comisiwn? Ydw

A allwch roi rhagor o wybodaeth neu ddarparu cynigion eraill? Na

**ERP CAERFFILI 048 – Y Cynghorydd John Declan McCarthy**

Ni ddylai ward Gilfach gael ei chyfuno â ward Aberbargoed a Bargod. Mae Aberbargoed a Bargod yn ward fawr, ac mae preswylwyr Aberbargoed eisoes yn anfodlon bod eu hunaniaeth unigryw a'u hanghenion cymunedol yn cael eu hanwybyddu yn sgil colli eu ward unigol. Byddai'r un rhesymeg yn berthnasol i Gilfach. Mae gan bentrefi Aberbargoed a Gilfach hunaniaeth ar wahân i dref Bargod ac mae ganddynt anghenion unigol a gynrychiolir orau gan gynghorwyr ymroddedig, penodol.

Ar hyn o bryd, mae gan Aberbargoed a Bargod ormod o etholwyr o gymharu â nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli'r ward, tra bod gan Gilfach rhy ychydig. Fodd bynnag, mae ward Aberbargoed a Bargod yn cynnwys ward gymunedol Parc ar hyn o bryd, sy'n cynnwys Ystad Gilfach Fargod. Fel y mae'r enw'n awgrymu, ystyrir yn hanesyddol ac yn ddiwylliannol bod yr ystad hon yn rhan o Gilfach ac, at ei gilydd, mae'r preswylwyr yn ystyried eu bod yn perthyn i bentref Gilfach. Yn wir, mae llawer o gyfeiriadau yn yr ardal wedi'u rhestru fel Gilfach. Byddai symud ward gymunedol Parc o ward Aberbargoed a Bargod i ward Gilfach ar lefel y prif awdurdod yn lleihau'r anghysondeb rhwng nifer yr etholwyr a chynghorwyr yn y ddwy ward, petai gweddill Aberbargoed a Bargod yn cadw ei thri chynghorydd presennol a bod Gilfach yn cadw ei chynghorydd unigol presennol, a byddai ffiniau'r ward yn cyd-fynd yn well â'r ymdeimlad presennol o hunaniaeth a pherthyn.

Mae ward gymunedol Parc hefyd wedi'i graddio'n 27ain yn fersiwn ddiweddaraf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru – byddai ei symud i ward prif awdurdod Gilfach, sy'n llai o faint, yn caniatáu i'r ardal hon gael mwy o sylw uniongyrchol gan ei chynghorydd, y mae mawr angen amdano o ystyried lefel yr amddifadedd a fesurwyd.

Os yw'r Comisiwn yn mynnu cyfuno ward Gilfach â ward Aberbargoed a Bargod, awgrymaf yn gryf y dylid newid enw'r ward i Aberbargoed, Bargod, a Gilfach. Mae'r cynnig i enwi'r ward wedi'i chyfuno yn "Fargod" yn syml yn dileu hunaniaeth y ddau bentref llai o faint a bydd yn parhau i ddieithrio preswylwyr y pentrefi hynny. Mae cynsail eisoes yn bodoli yn yr awdurdod lleol ar gyfer enwau sy'n rhestru tri neu fwy o leoedd – un enghraifft yw Penyrheol, Trecenydd, ac Energlyn. Mae rhestru'r tair cymuned ar wahân hefyd yn dangos i etholwyr yn gliriach ba ardaloedd y mae'r ward yn eu rhychwantu, gan leihau dryswch ymhlith etholwyr yn Aberbargoed a Gilfach ynglŷn â phwy yw eu cynghorwyr a ble y gallant bleidleisio. Nid oes rheswm da i ailenwi ward gyfunol o'r fath yn "Fargod" yn syml.

**RAE CAERFFILI 049 – Y Cynghorydd John Taylor, y Cynghorydd John Roberts a'r Cynghorydd Charlotte Bishop**

Rwyf yn cyflwyno'r gwrthwynebiad hwn i'r Cynnig i golli Cynghorydd o Ward Cwm Aber ar ran fy nghydweithwyr yn y Ward a minnau.

Am y rhesymau a nodir yn y llythyr atodedig, credwn y dylai Ward Cwm Aber barhau i gael ei chynrychioli gan 3 Chynghorydd.

7 Rhagfyr 2025

At Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Parthed: Trefniadau Arfaethedig ar gyfer Ward Cwm Aber – Cynigion Drafft Caerffili

Annwyl Aelodau'r Comisiwn

Ysgrifennwn atoch i wrthwynebu'r Cynnig i golli Cynghorydd ar gyfer Ward Cwm Aber.

Mae'r cynigion drafft yn amcangyfrif mai dim ond dau yn fwy o etholwyr a fydd yn Ward Cwm Aber erbyn 2030. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ystyried yr unedau preswyl ychwanegol ar

Safle Pwll Glo Windsor yn Abertridwr. Bydd 29 o unedau ag un ystafell wely, 52 o unedau â dwy ystafell wely a 71 o gartrefi â thair ystafell wely.

Sylweddolwn na fyddai'r Comisiwn yn ystyried safleoedd sydd â Chydsyniad Cynllunio. Fodd bynnag, mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y safle hwn. Mae'r gwaith tir wedi cael ei gwblhau ac mae gwaith ar fin dechrau i adeiladu'r cartrefi. Bydd y safle hwn yn rhoi mwy na 300 o bleidleiswyr ychwanegol i Ward Cwm Aber erbyn 2030. O ganlyniad, bydd cymhareb y Cynghorwyr i bleidleiswyr yn Ward Cwm Aber yn debyg i Wardiau eraill. Bydd nifer yr etholwyr yn Ward Cwm Aber yn 2030 yn fwy na Ward Trecelyn, y mae'r Comisiwn yn cynnig cadw'r 3 Chynghorydd ar ei chyfer.

Nid yw Cwm Aber yn cael ei drin yn deg.

Yn gywir

Y Cynghorydd John Taylor

Y Cynghorydd John Roberts

Y Cynghorydd Charlotte Bishop

**RAE CAERFFILI 050 – Aelod o'r Cyhoedd**

Ydych chi'n cytuno â wardiau etholiadol arfaethedig y Comisiwn? Ydw

A allwch roi rhagor o wybodaeth neu ddarparu cynigion eraill? Na

**ERP CAERFFILI 051 – Y Cynghorydd Bob Owen**

At Ymgynghoriadau'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau:

Yn dilyn neges e-bost at yr holl gynghorwyr gan reolwr gwasanaethau etholiadol y cyngor ynglŷn â chyflwyniad y cyngor ynghylch cynigion y Comisiwn ar gyfer y fwrdeistref, teimlais fod rhaid i mi ymateb, a chredaf fod fy sylwadau'n berthnasol iawn, unwaith eto, i'r cynnig i gyfuno wardiau Dwyrain a Gorllewin Rhisga. Felly, cyflwynaf y rhain fel cynrychiolaeth ychwanegol o blaid y cyfuno arfaethedig.

Cofion

**Y Cynghorydd Bob Owen**
Cynghorydd Sir - Gorllewin Rhisga | County Councillor - Risca West
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Caerphilly County Borough Council

Helô Dave,

Diolch am hyn. Fel y gallwch ddychmygu, rwyf yn siomedig iawn (hyd yn oed yn dilyn methiant y cyngor i argyhoeddi'r Comisiwn i beidio â chyfuno Rhisga ar lefel gymunedol) ein bod yn parhau i arddel safbwynt o'r fath ar lefel sirol. Mae Rhisga'n gymuned unigol, ac eithrio ffin anweledig nad yw'r rhan fwyaf o breswylwyr yn gwybod beth ydyw (mae'r rhan fwyaf yn tybio mai'r gamlas ydyw), a dyna fu'r sefyllfa erioed. Ni allaf ddod o hyd i bobl leol sy'n cefnogi safbwynt y cyngor ar Risga a galwaf ar yr arweinydd i dynnu ein cynrychiolaeth yn ôl. Rwyf yn fodlon cyfarfod i drafod ymhellach, ond rwyf wedi amlinellu fy rhesymeg isod.

…………………………………………………………………………..

Yr argymhelliad bod y trefniadau presennol yn parhau. Nid yw'r Grŵp o'r farn ei bod yn ddymunol ffurfio wardiau mawr aml-aelod mewn rhai achosion, ac mae'n credu bod hyn yn gallu cynyddu llwyth gwaith cynghorwyr, cyflwyno heriau daearyddol a lleihau atebolrwydd unigol.

Mae'r Comisiwn eisoes wedi argymell bod Rhisga yn cael ei chyfuno ar lefel gymunedol o 2027 ymlaen. Cytunodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru â hyn yn llwyr. Roedd ei argymhelliad a'i gyfiawnhad yn glir yn yr ystyr ei fod yn nodi ein 'hunaniaeth a rennir' ac yn darparu ar gyfer 'llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus' fel cymuned unigol. Mae'n rhaid i mi wrthwynebu safbwynt y gweithgor 'nad yw wardiau aml-aelod yn ddymunol (mewn rhai achosion) a'u bod yn gallu cynyddu llwyth gwaith cynghorwyr'. Beth yn union a olygir wrth 'mewn rhai achosion'? Gan na chynigir unrhyw beth i gyfiawnhau'r datganiadau hyn, ychydig iawn o werth a roddaf iddynt, os o gwbl. O ran heriau daearyddol, mae ffin Rhisga (wedi'i chyfuno) wedi'i diffinio'n glir iawn ac mae'r holl ardaloedd yn hygyrch iawn. Yn wir, mae rhan o'm ward i (Gorllewin Rhisga) yn y dwyrain mewn gwirionedd gan ei bod uwchben y llinell reilffordd, felly mae hyn yn amlwg yn lleihau'r ddadl 'cymunedau gwahanol iawn'. Ni chynigir unrhyw beth ychwaith i gyfiawnhau'r ddadl ynghylch heriau daearyddol. Yn yr un modd, ar ba sail y gwneir y sylw ynghylch llai o atebolrwydd unigol? Byddwn yn gwrthwynebu hyn; p'un a yw aelodau mewn wardiau â dau, tri, neu hyd yn oed pedwar aelod, nid oes ffordd o wybod beth yw llwyth gwaith pob aelod unigol, yn enwedig os oes cynrychiolaeth drawsbleidiol yn y ward, felly sut gallwn honni ei fod yn lleihau atebolrwydd unigol?

Mewn arolwg blaenorol, gwrthwynebodd y gweithgor gyfuno Aberbargoed a Bargod ar y sail eu bod yn gymunedau gwahanol iawn sydd â hunaniaethau unigol. Mae'r grŵp yn credu bod y ddadl hon yn fwy perthnasol y tro hwn a'i bod yr un mor gymwys i Ddwyrain/Gorllewin Rhisga.

Gan gyfeirio at y datganiad 'cymunedau gwahanol sydd â hunaniaethau unigol' - o ran y rhaniad rhwng dwyrain / gorllewin Rhisga, dadleuwyd hyn gan aelodau Dwyrain Rhisga (ac un aelod o'r Gorllewin, yn ôl yr hyn a ddeallaf) ar adeg yr arolwg cymunedol, ond fe'i diystyriwyd gan y Comisiwn am y rhesymau y cyfeirir atynt yn adran 1. Yn yr un modd, os ystyriwn fod y ward yn cael ei rhannu ar hyd y llinell reilffordd, fel y cyfeirir ato uchod hefyd - mae rhan o Orllewin Rhisga uwchben y llinell reilffordd. O ran cymunedau gwahanol, efallai

bod hyn yn berthnasol i Aberbargoed a Bargod (dwy dref / ardal ar wahân), ond nid yw'n berthnasol i Risga, yn amlwg. Mae Rhisga yn cael ei hystyried (ac wastad wedi cael ei hystyried) yn lleol fel un gymuned gan ei phreswylwyr, felly mae sylw'r grŵp yn cael ei wneud yn ddi-sail. Yn sicr, ni chynigir unrhyw beth i gyfiawnhau'r safbwynt hwn. Felly, deuaf i'r casgliad y bydd argymhelliad y Comisiwn ar gyfer Rhisga, sydd wedi'i seilio ar egwyddorion tebyg i'r rhai ar lefel gymunedol (yn yr achos hwnnw, cyfuno dau gyngor cymuned i ffurfio un, y tro hwn bydd yn arbed adnoddau amhrisiadwy ymhellach wrth i Risga symud o 3+2 i 4 aelod ac i'r gymhareb aelodau i breswylwyr gyd-fynd yn fras â thargedau'r Comisiwn ar gyfer y fwrdeistref), o fudd mawr yn lleol ac i'r cyngor yn ei gyfanrwydd.

Mewn arolygon blaenorol, mae'r Comisiwn wedi dadlau bod wardiau ag un aelod yn amgenach a dim ond mewn achosion eithriadol a lle y ceir tystiolaeth o gefnogaeth leol sylweddol y byddai wardiau â 4 aelod yn cael eu ffurfio. Mae'n ymddangos bod y cynigion hyn yn groes i'r egwyddor honno.

Cyn i CBSC gael ei ffurfio, roedd Rhisga yn un gymuned, ac ni allaf orbwysleisio bod hynny'n wir o hyd. Wedi'i rhannu gan ffin ogleddol/deheuol nad yw'n cael ei dilyn, nid wyf yn deall ein gwrthwynebiad i gynigion y Comisiwn ar gyfer Rhisga. Ni welaf y sail resymegol i benderfyniad a wnaed (tua 1996-98) i rannu'r gymuned. Efallai roedd rheswm gwleidyddol drosto? Beth bynnag fo'r rheswm, mae preswylwyr Rhisga wastad wedi bod yn un. Bydd argymhelliad y Comisiwn yn gwneud hynny'n swyddogol ac fe'i croesewir gan bawb heblaw am ambell un. Dychwelaf unwaith eto i sylwadau'r gweithgor 'dim ond mewn achosion eithriadol a lle y ceir tystiolaeth o gefnogaeth leol sylweddol y byddai wardiau â 4 aelod yn cael eu ffurfio', dyna hi mewn du a gwyn.

……………………………………………………………………………..

Fe ddylai hyn gael ei dynnu'n ôl.

Cofion

**Y Cynghorydd Bob Owen**
Cynghorydd Sir - Gorllewin Rhisga | County Councillor - Risca West
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Caerphilly County Borough Council

**<u>RAE CAERFFILI 052 – Aelod o'r Cyhoedd</u>**

Rwyf eisiau i Risga fod yn un cyngor cymuned ac nid dau fel y mae ar hyn o bryd.

Mae Rhisga'n gymuned unedig ac ni ddylai erioed fod wedi cael ei rhannu yn y lle cyntaf.

[redacted]

**RAE CAERFFILI 053 – Aelod o'r Cyhoedd**

Credaf fod cyfuno Rhisga yn gam cadarnhaol a byddwn yn ei groesawu.

Diolch yn fawr

[redacted]

**RAE CAERFFILI 054 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rydw i wedi byw yn Rhisga ar hyd fy oes pan oedd yn Gyngor Rhisga a phan oedden ni'n Islwyn. Nid oedd angen newid y ffin yn y 1990au. Fe ddylai Rhisga fod yn 1, nid 2. Mae'r gymuned wedi dioddef, felly rhowch hi'n ôl.

[redacted]

**RAE CAERFFILI 055 – Aelod o'r Cyhoedd**

Hoffwn gefnogi'r cynnig i gyfuno wardiau Gorllewin Rhisga a Dwyrain Rhisga i ffurfio ward unigol Rhisga.

Rwyf yn deall y bydd hyn yn arwain at un cynghorydd yn llai.

[redacted]

**RAE CAERFFILI 056 – Aelod o'r Cyhoedd**

Hoffwn gefnogi'r cynnig i gyfuno wardiau Gorllewin Rhisga a Dwyrain Rhisga i ffurfio ward unigol Rhisga.

Rwyf yn deall y bydd hyn yn arwain at un cynghorydd yn llai.

[redacted]

**RAE CAERFFILI 057 – Aelod o'r Cyhoedd**

Helô, fy enw i yw [redacted] Hoffwn weld wardiau Dwyrain a Gorllewin Rhisga yn cael eu cyfuno'n un.

Diolch

**RAE CAERFFILI 058 – Aelod o'r Cyhoedd**

CYNNIG I GYFUNO WARDIAU YNYS-DDU A CROSSKEYS

Hoffwn wrthwynebu'r cynnig i gyfuno wardiau Ynys-ddu a Crosskeys yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gryf.

Nid wyf wedi clywed am neb sy'n cefnogi'r cynnig hwn i gyfuno.

Mae'r wardiau'n ddwy gymuned cymoedd ar wahân.

Bydd y cynnig yn lleihau nifer y wardiau, ond bydd nifer y cynghorwyr yr un fath – dim arbedion.

Bydd y cynnig yn creu gwariant diangen heb enillion ariannol ar adeg pan fo cyllidebau cynghorau dan bwysau mawr (mae CBSC yn bwriadu cau 10 llyfrgell yn y fwrdeistref).

Cyflwynwyd y cynnig hwn i gyfuno tua 3 blynedd yn ôl a chefnwyd arno yn dilyn ymgynghoriad bryd hynny. Pam mae'n cael ei gynnig eto mor fuan?

Pam y cynigir newid sillafiad Ynysddu i Ynys-ddu? Rwyf wedi byw yn y ward hon am 34 mlynedd ac nid wyf ERIOED wedi gweld y sillafiad Ynys-ddu.

Rwyf hefyd yn gwrthwynebu newid sillafiad enwau'r wardiau eraill. Mae'r fwrdeistref hon yn ardal Saesneg ei hiaith yn bennaf. Dim ond 10.5% o boblogaeth y fwrdeistref sy'n siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2021). Mae hyn yn ddiangen ac yn ddieisiau.

Pam mae ffiniau'r HOLL etholaethau etholiadol yn ward Ynys-ddu yn cael eu newid?

Rydym wedi symud o etholaeth Islwyn i Gaerffili ar gyfer etholiadau Seneddol y Deyrnas Unedig (yn San Steffan).

Fodd bynnag, rydym yn dal i fod yn etholaeth Islwyn ar gyfer etholiadau i Senedd Cymru. Felly, roedd llawer o gymdogion yn credu bod gennym yr hawl i bleidleisio yn yr is-etholiad diweddar am aelod newydd ar gyfer etholaeth Caerffili yn y Senedd oherwydd ein bod ni yn etholaeth Caerffili ar gyfer etholiadau Seneddol y Deyrnas Unedig.

Roedd fy nghyfeiriad yn etholaeth Islwyn gynt ar gyfer etholiadau Seneddol San Steffan. Mae bellach yn etholaeth Caerffili. Os bydd wardiau Crosskeys ac Ynys-ddu yn cael eu cyfuno, a fydd rhan Crosskeys o'r ward gyfunol yn pleidleisio dros ymgeiswyr Gorllewin Casnewydd ac Islwyn a rhan Ynys-ddu yn pleidleisio dros ymgeiswyr Caerffili?

Roedd fy nghyfeiriad yn etholaeth Islwyn gynt ar gyfer etholiadau Senedd Cymru. Bydd bellach yn etholaeth Blaenau Gwent Caerffili Rhymni.

Mae fy nghyfeiriad yn ward Ynys-ddu ar hyn o bryd ar gyfer ethol cynghorwyr i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Fe ddylai aros felly.

Gobeithiaf y bydd y Comisiwn Ffiniau yn gwrando ar breswylwyr ward Ynys-ddu ac, unwaith eto, yn cefnu ar y cynnig dieisiau hwn i gyfuno wardiau Ynys-ddu a Crosskeys ac arbed y draul ddiangen.

Diolch

[redacted]

**RAE CAERFFILI 059**

**Aelod o'r Cyhoedd**

2 Rhagfyr

Uno Arfaethedig Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys

Dyma restr o resymau pam rwy'n meddwl na ddylid uno'r ddwy Ward.

1 Roedd yr etholiad diweddar yn etholaeth Caerffili oherwydd marwolaeth drist Dr Hefin David wedi arwain at ddryswch ymhlith llawer o drigolion, nad oeddent yn sylweddoli nad oeddent yn gymwys i bleidleisio. Ar hyn o bryd, mae Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys mewn dwy etholaeth Seneddol wahanol; cynrychiolir Ynys-ddu gan Chris Evans, AS dros Gaerffili, a chynrychiolir Crosskeys gan Ruth Jones, AS dros Islwyn a Chasnewydd, ac yn etholiadau Senedd Cymru, mae Ynys-ddu ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Rhymni, a Crosskeys yng Nghasnewydd Islwyn.

Os bydd Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys yn uno, byddai'n achosi anhrefn wrth i drigolion geisio deall pa AS neu Aelod o'r Senedd i bleidleisio drosto yn yr etholiadau nesaf ar gyfer San Steffan a Senedd Cymru.

2 Mae ein cwm fel teulu gyda phentrefi Wyllie, Ynys-ddu, Cwmfelin-fach, Brynawel a Wattsville, a byddwn yn ychwanegu pentrefan bach Gelli-groes at y rhestr hon, sydd wedi'i leoli ychydig islaw ward Pontllan-fraith ac sydd â chysylltiad hanesyddol pwysig â suddo'r RMS Titanic. Mae'r pentrefi hyn wedi'u cysylltu'n agos trwy fusnesau, clybiau chwaraeon ac ystadau diwydiannol, ffermydd yn y cyffiniau, partneriaethau cymunedol, sefydliadau crefyddol, ysgolion, grwpiau ieuenctid, meddygfeydd, cymorthfeydd yr heddlu, parc gwledig a chanolfan dwristiaeth. Rydym yn gymunedau agos sy'n uniaethu â'n gilydd. Mae Ward Ynys-ddu yn gymuned falch sydd wedi sefyll yn gadarn pan gafodd ei herio gan awdurdod.

3 Ar wahân i gemau rygbi'r undeb, nid oes unrhyw gysylltiadau hanesyddol rhwng Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys, ac mae llwyth gwaith enfawr yn Ward Ynys-ddu gan fod nifer o faterion mawr sy'n cymryd llawer iawn o amser i bwy bynnag a etholir fel dau gynrychiolydd y Ward. Mae'n hysbys bod Chwarel Tŷ Llwyd yn safle hanesyddol ar gyfer gwaredu gwastraff diwydiannol halogedig, sbwriel a biffenylau polyclorinedig (PCBs). Cafodd y rhain eu gwaredu ar y safle ar ddiwedd y 1970au gan gwmnïau lleol a rhyngwladol, ac mae angen ei lanhau. Hefyd, mae Ffatri Ailgylchu ddiangen yng nghanol y Ward, a safle glo brig yn yr arfaeth, sy'n cael ei herio'n gryf gan y gymuned. Mae'r rhain yn faterion na fyddant yn diflannu'n fuan, ac maent yn ychwanegol at y materion arferol sydd gan bob cynghorydd yn eu Wardiau.

Mae'r Cynghorydd Janine Reed a'r Cynghorydd Jan Jones ill dau yn bobl leol sy'n cynrychioli Ward Ynys-ddu. Os bydd y cynnig i uno yn cael ei adfer, yna byddai ymgeiswyr yn y dyfodol, sydd eisiau cynrychioli eu cymuned, yn wynebu ardal etholiadol ychwanegol nad ydynt yn ei hadnabod ac nad oes ganddynt unrhyw gysylltiadau hanesyddol â hi. Mae lleoliaeth yn golygu ymddiried yn ein cynrychiolwyr etholedig i wybod sut i ddiwallu anghenion lleol, a'u dal yn atebol drwy'r blwch pleidleisio.

Diolch i chi